



Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

Hoffai Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) dynnu lluniau/ffilmio a/neu sylwadau ohonoch chi/eich plentyn (fel sy'n berthnasol) fel cofnod o'r diwrnod ac i ddibenion hyrwyddo ond, er mwyn cydymffurfio gyda Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) 2018, mae'n rhaid i ni gael eich caniatâd chi cyn gwneud hynny.

Mae'n bosib y bydd y lluniau hyn yn ymddangos ar ein gwefan, newyddlenni, cyfrifon cyfryngau cymdeithasol, mewn deunyddiau yr ydym ni'n eu cynhyrchu a'u hargraffu i ddibenion hyrwyddo gan gynnwys taflenni, posteri a hysbysebion, mewn deunyddiau sy'n cael eu hanfon i'r wasg, neu mewn adroddiadau i gyrff ariannol yn ogystal â chyhoeddiadau mewnol.

Hefyd, yn ogystal ag unrhyw luniau/ffilm, hoffem gasglu'r data personol canlynol:

- Eich enw
- Enw rhiant gwarcheidwad (os yn berthnasol)
- Eich cyfeiriad
- Rhif ffôn cyswllt
- Cyfeiriad e-bost
- Lleoliad a dyddiad tynnwyd y llun/ffilm

Ni fyddwn yn cynnwys eich e-bost personol na'ch cyfeiriad personol na'ch rhifau ffôn ar ein gwefan nac mewn cyhoeddiadau sy'n cael eu hargraffu. Sylwch fod gwefannau yn cael eu gweld yn fyd-eang, nid dim ond yn y DU, lle mae cyfraith y DU yn gymwys.

Byddwn yn cadw'r data a'r llun/ffilm am 10 mlynedd oherwydd anghenion busnes, ac wedi hyn byddwn yn ei ddinistrio'n ddiogel.

Mae gennych hawliau penodol o dan y GDPR mewn perthynas â'r data y mae GTAGC yn ei gadw amdanoch chi. Mae'r hawliau hynny wedi eu rhestru ar ein gwefan yn www.gwastan-gogcymru.org.uk

Os oes gennych bryderon am y modd y byddwn yn defnyddio'ch data gallwch gysylltu gyda ni yma:

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Ffordd Salisbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
LL17 0JJ
Ffôn: 01745 535250
Ebost: DPO@gwastan-gogcymru.org.uk